**EITEM AR YR AGENDA: 11**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**PANEL GWEITHREDOL**

**3ydd Chwefror 2014**

**LLYTHYR ASESIAD GWELLA**

**Adroddiad gan Dawn Docx, Dirprwy Brif Swyddog Tân**

## DIBEN YR ADRODDIAD

1 Diben yr adroddiad yw cyflwyno'r Llythyr Asesiad Gwella i Aelodau. Bydd cynrychiolydd o Swyddfa Archwilio Cymru yn bresennol yn y cyfarofd i drafod y llythyr yn fanylach.

## CEFNDIR

2 Yn dilyn cyflwyno'r Mesur Llywodraeth Leol 2009, mae'n rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru (yr Archwilydd) roi barn ynghylch p'un a yw'r Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cyflwyno adroddiadau ar welliant ac wedi bodloni gofynion y Mesur.

## GWYBODAETH

3 Mae'r Llythyr Asesiad Gwella a atodir fel Atodiad 1 yn crynhoi barn yr Archwilydd ac mae'n cadarnhau fod yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cyflwyno adroddiadau ar welliant yn unol â'r Mesur. Mae'r Archwilydd yn credu bod lle i gryfhau ei drefniadau ymhellach.

4 Mae'r Archwilydd yn argymell y cynigion canlynol ar gyfer gwelliant:

- Sicrhau y caiff adroddiad yr Asesiad o Berfformiad ei hyrwyddo'n amlwg ar wefan yr Awdurdod ac y rhoddir cyhoeddusrwydd eang i'w fodolaeth.

- Cwblhau crynodeb o'r adroddiad a rhoi cyhoeddusrwydd iddo gan sicrhau y caiff rhanddeiliaid allanol eu hysbysu amdano.
- Sicrhau bod adroddiad yr Asesiad o Berfformiad ar gael mewn gwahanol fformatau ac y nodir hynny'n glir yn yr adroddiad.
- Cynnwys adran yn gwahodd sylwadau neu gyfraniadau penodol gan ddinasyddion a'r gymuned am yr Asesiad.

**ARGYMHELLIAD**

5 Argymhellir fod yr Aelodau yn derbyn y Llythyr Asesiad Gwella ac yn nodi y bydd Adroddiad Gwella Blynyddol yr Awdurdod yn cael ei gyhoeddi ddiwedd Mawrth 2014.